Minutes

Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad cyhoeddi : 8 Gorffennaf 2024

1 **Question to the Cabinet Member for Housing and Planning : 2024/27 - NCC/NCH Shareholder Status**

Gofynnodd y Cynghorydd M Howells:
Mae'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod Cartrefi Dinas Casnewydd ('CDC') yn bwriadu uno â Chymdeithas Dai Melin Homes ar hyn o bryd. Cyn 2007, roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn berchen ar oddeutu 8000 o gartrefi rhent cymdeithasol ledled y ddinas. Er mwyn buddsoddi yn yr eiddo i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru, penderfynodd y Cyngor drosglwyddo ei holl stoc a sefydlu Cymdeithas Dai newydd, CDC er mwyn gwneud hynny. Roedd cyfansoddiad gwreiddiol bwrdd CDC yn golygu bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cael ei gadw fel cyfranddaliwr ac y gallai benodi 5 aelod o'r bwrdd (traean o'r bwrdd). Roedd hyn yn golygu bod y Cyngor yn parhau i oruchwylio'r ffordd yr oedd CDC yn gweithredu ac y gallai sicrhau bod gwasanaethau tai yn cael eu darparu i bobl Casnewydd yn y ffordd yr oedd y Cyngor yn ei bwriadu. Yn 2017 daeth i'r amlwg bod CDC wedi newid ei reolau a thynnu'r Cyngor fel cyfranddaliwr a'i hawl i benodi traean o aelodau'r bwrdd. Ar stepen y drws ac mewn cyfarfodydd ward rwy'n clywed mwy a mwy o rwystredigaeth gydag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan CDC i'n trigolion.
1. Pam y caniatawyd i CDC dynnu statws cyfranddaliwr y Cyngor a'i hawl i benodi aelodau'r bwrdd yn 2017 i oruchwylio eu gwaith?
2. Beth mae'r Aelod Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cadw rhywfaint o ran yn y gwaith o oruchwylio'r sefydliad newydd a fydd yn cael ei ffurfio drwy uno CDC a Melin.
3. Pa sicrwydd sydd wedi'i gynnig i Gyngor Dinas Casnewydd y bydd y sefydliad newydd yn chwarae ei rôl wrth gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau tai a digartrefedd statudol.
4. Beth all trigolion ei ddisgwyl o'r uno rhwng CDC a Melin?

Ymatebodd y Cynghorydd Adan gan ddweud y canlynol:
Cytunwyd ar y newidiadau gan y Cyngor llawn ar 26 Medi 2017.
Mae'r Cyngor wedi cael gwybod y bydd y sefydliad newydd yn darparu mwy o gartrefi a gwell gwasanaethau i denantiaid ac y bydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i gyflawni ein nodau strategol.
Mae'r ddau sefydliad yn parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor drwy ein trefniadau partneriaeth strategol sefydledig i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy mewn cyfnod o bwysau sylweddol.

The meeting terminated at Time Not Specified